SyniadauA. G.

Tymor y Gwanwyn 2017 **Pris £1.00**

gan Mrs Samantha Bray, Caerdydd

Gweithio fel Tîm

Rydym i gyd yn rhan o dîm!
Bydd y rhifyn yma o 'Syniadau AG' yn ceisio annog disgyblion i archwilio i'r cysyniad o gydweithio fel tîm - pam mae hyn yn bwydsig a beth yw'r manteision .
Rydym hefyd yn mynd i edrych ar ddysgeidiaeth St Paul am 'Corff Crist' yn ogystal â phwysigrwydd Undod Cristnogol.

TASG Atebion os gwelwch yn dda!

Pwrpas : I gyflwyno'r syniad o weithio gyda'n gilydd
Trefn: Mae angen o leiaf ddau grŵp (dim llai na 5/6 disgybl ym mhob un)
Adnoddau :Set o gardiau (un llythyren A-Y i bob cerdyn a set i bob grŵp);
Nifer o gwestiynau y medrir eu llunio allan o'r llythrennau yma

1. Rhannu disgyblion i dîmau, a rhoi set o gardiau i bob tîm.
2. Egluro y gellir cael yr ateb i bob cwestiwn o'r llythrennau. Er mwyn ateb y cwestiwn yn gywir, rhaid i bob grŵp lunio y gair drwy ddal y cardiau i fyny yn y drefn gywir oddifewn i'w grŵp.
3. Bydd y grŵp cyntaf i gael yr ateb cywir yn cael pwynt. (Efallai yr hoffech ddewis rhywun i gadw y sgôr - byddai hyn yn eich helpu).
4. Dyma'r cwestiynau i'w gofyn:
   - Mae'r awyr yn …… (glâs)
   - Y nifer o goesau sydd gan gi yw …… (pedair)
   - Y gair croes i uchel yw …… (isel)
   - Mae 3 a 3 yn …… (chwech)
   - Lliw sydd yn cychwyn gyda 'C' …… (coch)

   Ychydig o rai mwy anodd !
   - Rhywbeth fyddai gennych ei angen yn y tywyllwch …… (golau/tortsh/cannwyll)
   - Taflu darn o bren i'r ci a gweiddi …… (nôl o)



TASG

Dangos y rhaglun gyfan o **FANTASTIC MR FOX** i'r dosbarth (gallwch ddod o hyd i hwn ar YouTube drwy chwilio am *'Trailer Fantastic Mr Fox'*).

CYN HYN - gofyn i'r disgyblion i edrych allan am yr anifeiliaid , a thrafod cryfderau cymeriad a nodweddion.

WEDI HYN – ail-edrych ar y clip ble mae Mrs Fox yn dweud "Rydym gyd yn wahanol, ond mae yna rhywbeth yn wych yn hynny....", a'r clip ble mae Mr Fox yn edrych ar gryfderau pob anifail yn unigol.

DEWCH I FEDDWL... .....

Y plant i eistedd mewn cylch. Cychwyn drwy ddweud ein bod i gyd yn dda am wneud rhywbeth.
Gofyn i'r disgyblion yn eu tro i ddweud beth maent yn ei wneud sydd yn dda a rhoi rhesymau ac enghreifftiau.

Efallai y gwelwch y byddai y dasg yma yn haws petai y ddisgyblion yn rhannu syniadau gyda'u pardner a'r pardner i ddweud wrth y dosbarth beth mae'r plentyn yna yn ei wneud sydd yn dda a pham (byddai hyn yn siwtio plant sydd yn swil).

Trafodwch gyda'r disgyblion nodweddion arweinydd da. Dyma rai cwestiynau i'ch ysgogi a rhoi cychwyn i'r drafodaeth .....

- A yw'n bosibl i bawb fod yn arweinydd?
- A yw pob unigolyn yn arweinydd naturiol?
- A yw cael arweinyddion yn rhywbeth da?
- Ydych chi yn ystyried eich hunan fel arweinydd?
- Pryd wnaethoch chi ddangos sgiliau arweinyddiaeth ?
- Fedrai Mr Fox fod wedi bod yn llwyddiannus ar ei ben ei hun?
- Beth fyddai yn digwydd petai pawb yn ceisio bod yn arweinydd?
- Beth yw amodau llwyddiant gwaith tîm da ?
- Beth wnaeth i'r gwaith tîm yn **FANTASTIC MR FOX** lwyddo?

**** Atgoffa y disgyblion fod pob aelod o'r tîm yr un mor bwysig a'u gilydd! ****

'Corff Crist'

TASG Ein Corff Ni

DARLLEN – yr athro i ddarllen dysgeidiaeth St Paul ar 'Gorff Crist' i'r disgyblion

MYFYRIO – disgyblion i fyfyrio dros y geiriau a'r syniadau – beth maent yn ei olygu?

YN UNIGOL - defnyddio yr amlinelliadu o'r corff, gall disgyblion roi gwahanol dalentau arno a breintiau sydd ganddynt hwy ac eraill, arno (fel a drafodwyd yn y dasg ddiwethaf).

MYFYRIO – yr athro i ail ddarllen y rhannau o'r Beibl sydd wedi eu pwysleisio(du) a thrafod eu hystyr /arwyddocâd gyda'r disgyblion.



1 Corinthiaid, 12:12-27

Un yw y corff ond gyda llawer o rannau. Oes, mae llawer o rannau i'r corff, **ond mae'r cyfan yn gwneud un corff**, Mae Crist felly hefyd. Mae rhai ohonom yn Iddewon a rhai yn Roegiaid. Mae rhai ohonom yn gaeth, a rhai yn rhydd. Ond rydym i gyd wedi ein bedyddio i un corff drwy un Ysbryd. **Ac rydym i gyd yn rhannu yn yr un ysbryd yna.**

Ac mae 'r corff yn cynnwys mwy nag un rhan. Mae ganddo lawer o rannau. Gall y droed ddweud "Nid llaw wyf i. Felly nid wyf yn rhan o'r corff." Ond fyddai dweud hyn ddim yn gwneud i'r droed beidio a bod yn rhan o'r corff. Gall y glust ddweud "Nid wyf yn llygad.. felly nid wyf yn rhan o'r corff." Ond fyddai dweud hyn ddim yn gwneud i'r glust beidio a bod yn rhan o'r corff.

Petai y corff i gyd yn llygad, ni fyddai y corff yn gallu clywed. Petai y corff i gyd yn glust, ni fyddai y corff yn gallu arogli unrhywbeth. **Petai y corff i gyd wedi ei wneud o'r un rhan, yna ni fyddai y corff yn bod o gwbwl.**

Mewn gwirionedd, mae Duw wedi gosod rhannau yn y corff fel roedd Ef yn ei ddymuno. Gwnaeth le i bob un ohonynt. **Ac felly mae llawer o rannau, ond dim ond un corff.**

Ni fedr y llygad ddweud wrth y llaw: 'Does gen i mo dy angen di!' Ac ni fedr y pen ddweud wrth y droed; 'Does gen i mo dy angen di!' Na!

Mae'r rhannau hynny o'r corff sydd yn ymddangos yn wanach, mewn gwirionedd yn bwysig iawn. Ac mae'r rhannau hynny yr ydym ni yn credu eu bod yn werth llawer yw'r rhannau rydym yn gofalu fwyaf drostynt. **Rydym yn rhoi gofal arbennig i'r rhannau hynny o'r corff rydym am eu cuddio. Mae'r rhannau mwyaf tlws o'n corff angen gofal arbennig.**

Ond Duw luniodd y corff i gyd a rhoddodd fwy o anrhydedd i'r rhannau hynny oedd ei angen. **Gwnaeth Duw hyn fel na fyddai ein corff yn rhanedig.**

Roedd Duw am i'r gwahanol rannau i roi yr un gofal i bob un. **Os yw un rhan o'r corff yn dioddef, yna mae pob rhan arall yn dioddef hefyd. Neu os yw un rhan o'r corff yn cael ei anrhydeddu, yna mae pob rhan arall o'r corff yn rhannu yn yr anrhydedd yna.**

BCN (wedi ei symleiddio)

Wythnos o Weddi am Undod Cristnogol

Fel arfer ym mis Ionawr, rydym yn dathlu wythnos o Undod Cristnogol gyda phwyslais arbennig a sylw yn cael ei roi i weddi sy'n cael ei offrymu er mwyn cydbnabod fod mwy yn ein huno nag yn ein gwahanu. Eleni, mae hyn yn cymryd lle yn ystod Ionawr 18–25, 2017.

Y thema yw **Cymodi - Mae cariad Crist yn ein gorfodi ni'. (2 Corinthiaid 5:14-20)**, yn addas iawn gan mai dyma benblwydd 500 ers cychwyn y Diwygiad Protestannaidd.

GWEITHGAREDD 1

Disgyblion i lunio chwilair neu groesair yn defnyddio 10 gair allweddol sydd wedi cael eu trafod pan yn gweithio ar y daflen waith yma.

Yn dibynnu ar allu y disgyblion, efallai y dymunech roi y ngeiriau/cliwiau iddynt eich hunan.

Wedi cwblhau hyn, gall y disgyblion gyfnewid gyda disgybl arall i'w gwblhau. .

GWEITHGAREDD 2

Gall disgyblion dreulio amser tawel yn myfyrio ar y gweithgareddau yn y gwaith yma ac un ai (a)lunio eu darn barddoniaeth acrostig eu hunain gyda gair allweddol o'u dewis hwy (ee. Gwaith Tîm, Undod , ayyb..) neu (b) ysgrifennu eu gweddi eu hunain am Undod.

GWEITHGAREDD 3.

Ac,fel hwyl…..……Y Cwlwm Dynol!

Pob un i sefyll mewn cylch - estyn dwy law allan - a chydio yn llaw rhywun arall - dim ots pwy, ac felly greu cwlwm anferth!

Heb ollwng dwylo, dylai y grŵp geiosio dod yn rhydd eto …….

**** Mae gennym ni angen ein gilydd – mae gennym angen cyfathrebu a gweithio gyda'n gilydd! ****

ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl rifynnau o '*Syniadau AG*' ar gael

Cyhoeddiadau Cynradd – *Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu; Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig*
Cyfres Ymchwilio i Thema: *i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau ac i Gwestiynau Dyrys.*
SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – **Am Ddawn – Huw John Hughes**)
Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues; Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chyndeithasol.*
Cyffredinol:*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Cysyllter â: Sali Roberts, REMW, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Fax: 01654 - 761 697) e mail: sali@patshyn.fsnet.co.uk

© MAGC 2017